



Ein cyf/Our ref: MA/RE/2314/21

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
Swyddfa.breifaf@senedd.cymru

9 Rhagfyr 2021

Annwyl Huw

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) 2021

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr i ddarparu ymateb ffurfiol i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) ar 17 Tachwedd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (y Bil).

Hoffwn ymddiheuro am unrhyw ddiffyg eglurder sydd wedi digwydd wrth ymdrin â'r ddeddfwriaeth hon a byddaf yn cywiro'r cofnod ar gyfer 23 Tachwedd i egluro bod y llythyr a anfonwyd at y Pwyllgor ar 20 Tachwedd yn ymwneud â materion a godwyd mewn perthynas â Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021 (y Rheoliadau) ac nad oedd y Pwyllgor wedi cael ymateb ffurfiol i'w adroddiad ar y Cydsyniad Deddfwriaethol Memorandwm ar gyfer y Bil cyn dadl y Cyfarfod Llawn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil ar 23 Tachwedd. Roeddwn wedi bwriadu ymateb i faterion a godwyd gan y Pwyllgor a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn eu hadroddiadau priodol drwy ysgrifennu at yr holl Aelodau cyn y ddadl yn unol â'r cais. Wedi hynny, ysgrifennais at yr holl Aelodau ar 22 Tachwedd yn egluro'r materion a godwyd yn y ddau adroddiad ac rwyf yn cydnabod nad oedd hyn yn ymateb ffurfiol i adroddiad y naill Bwyllgor na'r llall.

Ysgrifennais at yr holl Aelodau ar 22 Tachwedd, cyn y ddadl berthnasol, yn nodi sut, pryd a pham y gwnaed ceisiadau i ymestyn cymhwysiad y Bil i Gymru. Roedd y llythyr yn rhoi manylion am amseru - yn gyntaf mewn perthynas â chyhoeddi ein bwriad polisi ar 7

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gorffennaf ac ysgrifennu at Lywodraeth y DU ar 27 Gorffennaf, ac yn ail wrth wneud y Rheoliadau a osodwyd ar 1 Tachwedd. Roedd fy llythyr hefyd yn nodi, cyn belled ag y bo modd, fanylion am oblygiadau ariannol yr amseriadau hynny.

Argymhelliad 1. Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, dylai'r Gweinidog roi'r manylion llawn i holl Aelodau'r Senedd ynghylch sut, pryd a pham y gofynnodd y Gweinidog i'r Bil Lloegr yn unig, a gyflwynwyd i Senedd y DU, gael ei ddiwygio fel bod ei gymhwysiad yn cael ei ymestyn i Gymru. Dylai manylion o'r fath gynnwys esboniad o'r oedi rhwng hysbysu Aelodau o'r Senedd ar 7 Gorffennaf am ei bwriad i geisio gwelliannau i'r Bil ac ysgrifennu'n ffurfiol at Lywodraeth y DU ar 27 Gorffennaf.

Mae fy llythyr ar 22 Tachwedd yn berthnasol.

Ar 7 Gorffennaf, cyhoeddais ein cynlluniau ar gyfer apelau NPA Covid-19, gan nodi y byddem yn ceisio cynnwys darpariaethau yn y Bil a mynd ar drywydd is-ddeddfwriaeth i atal apelau yn y dyfodol tra bod y Bil yn mynd rhagddo. Yn dilyn 7 Gorffennaf, cysylltodd fy swyddogion â chymheiriaid Llywodraeth y DU i osod sylfeini ar gyfer cynnwys darpariaethau i Gymru yn y Bil.

Yn dilyn hynny, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd ar 27 Gorffennaf yn gofyn am gynnwys darpariaethau perthnasol i Gymru yn y Bil. Cafwyd ymateb ar 3 Medi gan y Gweinidog Twf Rhanbarthol a Llywodraeth Leol ar y pryd, yn cadarnhau y byddai darpariaethau perthnasol ar gyfer Cymru yn cael eu cyflwyno fel gwelliant yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ar 9 Medi.

Argymhelliad 2. Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, dylai'r Gweinidog roi manylion llawn i Aelodau o'r Senedd am y rhesymau dros yr oedi hwn ac unrhyw effaith andwyol gysylltiedig ar gyllid cyhoeddus Cymru.

Fel y soniwyd, cyhoeddais safbwynt polisi Llywodraeth Cymru ar 7 Gorffennaf.

Ochr yn ochr â datblygu darpariaethau i'w cynnwys yn y Bil, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod hefyd yr angen i wneud rheoliadau i ddiogelu cyllid cyhoeddus tra bod y Bil yn mynd rhagddo drwy Senedd y DU ac fel mesur lliniaru yn erbyn y risg y bydd y Bil yn methu.

Er na wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori cyn gwneud ei rheoliadau, roeddem o'r farn ei bod yn briodol cynnal ymgynghoriad technegol ar ein rheoliadau drafft. Daeth yr ymgynghoriad chwe wythnos i ben ar 27 Medi, a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 21 Hydref.

Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad, cafodd y rheoliadau drafft eu cwblhau a'u gosod ar y dyddiad cynharaf posibl. Gosodwyd y Rheoliadau ar 1 Tachwedd a daethant i rym yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. O 1 Tachwedd, roedd y Rheoliadau yn atal apelau sy'n ceisio dibynnu ar faterion sy'n ymwneud â Covid-19. Nid oes gwybodaeth ar gael eto i ddangos effaith lawn Rheoliadau Cymru: mae hyn yn cynnwys data am y risg i gyllid cyhoeddus Cymru a allai fod wedi digwydd rhwng 25 Mawrth, pan osodwyd rheoliadau ar gyfer Lloegr, ac 1 Tachwedd, pan gafodd y Rheoliadau ar gyfer Cymru eu gwneud. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau wedi diogelu rhag unrhyw apelau perthnasol a gyflwynwyd ers 1

Tachwedd a byddant yn parhau i wneud hynny tra bo'r Bil yn mynd drwy'r Senedd neu os bydd y Bil yn methu.

At hynny, rwy'n nodi sylwadau'r Pwyllgor yn ei gasgliadau am wybodaeth nad yw wedi'i chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol, y rhyngweithio rhwng y systemau ardrethu yng Nghymru a Lloegr, ac eglurder ynghylch y dull a fyddai wedi'i fabwysiadu pe bai wedi bod yn bosibl gwneud darpariaeth mewn Bil Cymreig.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig er gwybodaeth, a byddwn yn hapus i ysgrifennu ato ar wahân pe bai angen eglurhad pellach.

Yn gywir



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Minister for Finance and Local Government